

# Asbestos – Beth Yw Eich Cyfrifoldebau

Crëwyd y canllaw hwn i'ch atgoffa o'ch cyfrifoldebau i denantiaid a chontractwyr o ran Asbestos.

## 1. Beth yw Asbestos?

Mae asbestos yn ffibr mwynol a allai fod yn beryglus. Cyn i'w beryglon ddod yn hysbys, defnyddid asbestos yn aml mewn adeiladau ar gyfer inswleiddio, lloriau a thoeon, ac fe'i chwistrellid ar nenfydau a waliau. Mae defnydd o asbestos bellach wedi'i wahardd yn y DU, ond efallai y bydd gan adeiladau a adeiladwyd cyn y flwyddyn 2000 asbestos ynddynt o hyd.

Pan fo deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu difrodi neu eu cyffwrdd, gellir rhyddhau ffibrau asbestos bach i'r awyr sy'n gallu cael eu hanadlu i'r ysgyfaint. Gall y risgiau iechyd cysylltiedig gymryd rhwng 15 a 60 mlynedd i ddatblygu. Nid oes modd eu gwella ac yn aml maen nhw'n angheuol.

Ble gall fod yn cuddio? – Gweler y [darlun gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) sy'n esbonio'r ardaloedd posibl lle gall asbestos fod yn cuddio.

## 2. Asbestos a'ch Trwydded Rhentu Doeth Cymru.

Mae amodau eich trwydded yn nodi bod yn rhaid i chi gydymffurfio â 'Chod Ymarfer ar gyfer Landlordiaid ac Asiantau Trwyddedig' a drwyddedwyd o dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014'.

Er mwyn bodloni'r gofynion o ran asbestos, dylai person cymwys\* gynnal asesiad risg mewn perthynas â phob eiddo rhent sy'n cael ei reoli. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnwys ar eich rhestr wirio archwilio eiddo a'u trafod yn ystod sgysiau cychwynnol rhwng asiantau a landlordiaid.

Mae'n hanfodol bod gennych ymwybyddiaeth sylfaenol o beth yw asbestos a ble y gellir dod o hyd iddo. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i roi'r wybodaeth ofynnol i gontractwyr cyn dechrau unrhyw waith. Mae Rhentu Doeth Cymru hefyd yn cynghori ac yn argymhell yn gryf eich bod yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'ch tenantiaid.

**Pan fo Rhentu Doeth Cymru o'r farn nad yw landlord neu asiant wedi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth, gwneir atgyfeiriad i'r corff gorfodi perthnasol i'w ystyried a'i weithredu, os oes angen.**



\* Person cymwys – gallai fod yn gyflogai sydd wedi'i hyfforddi i adnabod asbestos.

### 3. Beth yw eich cyfrifoldebau?

Rhaid rheoli asbestos yn briodol oherwydd y perygl y mae'n ei achosi. Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol, mae gwahanol gyfrifoldebau ar gyfer landlordiaid ac asiantau wedi'u pennu o fewn y gyfraith ledled Cymru.

Mae gennych ddyletswydd gofal i archwilio eiddo a sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu lleihau neu eu rheoli. Eich gwaith chi yw nodi ble yn eich eiddo rhent, os o gwbl, y gallai asbestos fod yn bresennol a chymryd y camau priodol.



#### Cyfrifoldebau i'ch Tenantiaid

Rhaid i chi sicrhau bod eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr diogel, heb unrhyw risg annerbyniol i iechyd eich tenantiaid.

Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i aelodau o'r cyhoedd a allai ymweld â'ch eiddo rhent.

#### Cyfrifoldebau i'ch staff a'ch contractwyr

Mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud eu gwaith yn y fath fodd fel na fydd eu gweithwyr yn agored i risgiau iechyd a diogelwch, ac i roi gwybodaeth i bobl eraill am eu gweithle a allai effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch.

Mae'n ofynnol i fusnesau gynnal asesiadau risg i ystyried pob perygl posibl yn y gweithle.

Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw gontractwr a gyfarwyddir yn cael gwybod am bresenoldeb neu bresenoldeb posibl asbestos. Os nad ydych yn rhoi gwybod i gontractwr a bod y contractwr yn dod i gysylltiad ag asbestos, gallech wynebu camau gorfodi. Byddai angen i chi brofi eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu'r contractwr hwnnw.

#### Cyfrifoldebau o ran tai amfeddiannaeth

Os ydych yn rheoli/cynnal a chadw tai amfeddiannaeth, mae gennych gyfrifoldebau pellach. Y rheswm am hyn yw y gallai tŷ amfeddiannaeth neu rannau o dŷ amfeddiannaeth ddod o dan y diffiniad o eiddo annomestig. Gweler [gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) am ragor o wybodaeth.

Dyma rai o'ch cyfrifoldebau:

- cymryd camau rhesymol i ganfod a oes deunyddiau sy'n cynnwys asbestos mewn safle annomestig, ac os felly, faint sydd yno, ei leoliad a'i gyflwr.
- tybio bod deunyddiau'n cynnwys asbestos oni bai bod tystiolaeth gref i'r gwrthwyneb.
- gwneud, a diweddar, cofnod o leoliad a chyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos - neu ddeunyddiau y tybir eu bod yn cynnwys asbestos.
- asesu'r risg y bydd unrhyw un yn cael ei amlygu i ffibrau o'r deunyddiau a nodwyd.
- paratoi cynllun sy'n nodi'n fanwl sut y caiff y risgiau o'r deunyddiau hyn eu rheoli.
- cymryd y camau angenrheidiol i roi'r cynllun ar waith.
- adolygu a monitro'r cynllun a'r trefniadau gweithredu o bryd i'w gilydd fel bod y cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol a;
- rhoi gwybodaeth am leoliad a chyflwr y deunyddiau i unrhyw un a allai fod yn gweithio arnynt neu darfu arnynt.

## Astudiaethau Achos

### **Dirwy i asiant ar ôl i contractwr ddod o hyd i asbestos mewn eiddo rhent**

Anfonwyd y contractwr i eiddo domestig gan asiant gosod i drwsio to porth sy'n gollwng. Wrth iddo dynnu dalen o ddeunydd o banel isaf y to a ddifrodwyd, sylweddolodd fod y bwrdd inswleiddio yn cynnwys asbestos. Torrwyd y ddalen wrth ei symud a chafodd yr ardal gyfagos ei halogi â malurion asbestos.

Canfu ymchwiliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch nad oedd y contractwr wedi cael unrhyw arwydd bod asbestos yn bresennol yn yr eiddo. Ni chynhaliwyd asesiad risg, ac ni wnaeth yr asiantau unrhyw ymgais i sicrhau ei fod yn gymwys i adnabod neu weithio gydag asbestos.

Cafwyd yr asiantau yn euog o dorri Adran 3(1) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chawsant ddirwy o £1,500 gyda chostau o £2,500.

### **Contractwyr yn cael dirwy**

Plediodd dau gyflogai cwmni a ddefnyddiwyd i osod drws garej newydd yn euog i dorri Rheoliad 6(1) o Reoliadau Rheoli Asbestos 2012 ac Adran 3(1) o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974. Tarfwyd ar asbestos a chafodd ei wasgaru o amgylch y cartref drwy'r system gwres canolog.

Ni chynhaliwyd asesiad addas a digonol i ganfod a allai asbestos fod yn bresennol ar y safle, a pha fath o asbestos a allai fod yn bresennol, cyn dechrau'r gwaith.

Cafodd y cwmni ddirwy o £10,000 a'i orchymyn i dalu costau o £1,589.

### **Landlord ac asiant yn cael dirwy am reoli asbestos**

Roedd contractwr wedi mynegi pryderon bod byrddau inswleiddio asbestos wedi'u tynnu o loriau gwag adeilad; darganfu arolygwyr fod asbestos hefyd yn bresennol mewn rhannau o'r adeilad a feddiannwyd gan denantiaid.

Er bod yr asiant gosod wedi codi'r mater o ddiffyg asesiad asbestos o'r blaen, ni wnaeth gwrso'r mater ac ni chynhaliwyd arolwg asbestos.

Plediodd yr asiant gosod a'r perchennog yn euog o dorri Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 mewn perthynas â'u methiant i sicrhau diogelwch y bobl yn yr adeilad. Roedd y perchnogion hefyd wedi torri Rheoliadau Rheoli Asbestos 2006 drwy fethu ag asesu risgiau asbestos yn briodol ar y safle.

Cafodd yr asiantau gosod ddirwy o £15,000 (a gorchmynnwyd iddynt dalu costau o £11,011). Cafodd y perchennog ddirwy o £40,000 (gyda chostau o £8,969).

Dolenni Defnyddiol:

- [Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Iechyd a Diogelwch Asbestos](#)
- [Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Ble allwch chi ddod o hyd i Asbestos?](#)
- [Cod Ymarfer Rhentu Doeth Cymru](#)
- [Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974](#)
- [Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012](#)